**551 PENTECOST 96** 11.11.11.5 JAMES GRIFFITHS



## 668 O Dduw ein galwad, clywsom dy addewid

O Dduw ein galwad, clywsom dy addewid,
yn ein calonnau plennaist wraidd dy bwrpas;
ti a'n harweiniaist drwy yr oriau duaf,
 O Dduw ein galwad.

Dduw ein hymgynnull, gydol y canrifoedd
maethaist ni wrth dy fwrdd â’th gariad graslon,
dŵr, gwin a bara, rhoddion drud dy aberth,
 Dduw ein hymgynnull.

O Dduw ein moliant, mawl a chân ac offrwm,
pob un â'i iaith ac idiom ei ddiwylliant,
yn ein bywydau cynnau fflam sancteiddrwydd,
 O Dduw ein moliant.

Dduw ein gwasgaru, yn ein byd drallod,
danfon dy Ysbryd, lleda ein gorwelion;
yn un cymundeb ffurfia ni o'r newydd,
 Dduw ein gwasgaru.

Meurig Llwyd